



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

Canlyniadau arholiadau: Medi 2023 i Awst 2024 (dros dro)

Canlyniadau arholiadau allanol a gafodd eu sefyll gan ddisgyblion blwyddyn 11 neu 17 oed, sy'n cynnwys TGAU a Lefel A ar gyfer Medi 2023 i Awst 2024.

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Hydref 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 3 Hydref 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Newidiadau i'r broses o lunio'r ystadegau hyn

Canlyniadau allweddol 2023/24

TGAU Disgyblion Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

Disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol mewn Ysgolion
(Chweched dosbarth)

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn adrodd ar ganlyniadau arholiadau TGAU a Safon Uwch ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 neu 17 oed ysgolion canol, uwchradd neu arbennig a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) neu disgyblion a addysgir heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu yng Nghymru. Nid yw hyn yn cynnwys disgyblion mewn ysgolion annibynnol na Sefydliadau Addysg Bellach.

Newidiadau i'r broses o lunio'r ystadegau hyn

Ailgyflwyno prif ddangosyddion TGAU

Fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg yn ei **Ddatganiad Ysgrifenedig dyddiedig 19 Ionawr 2023, bydd Llywodraeth Cymru yn ailddechrau adrodd ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar lefel ysgol gan ddefnyddio'r dull a fabwysiadwyd yn 2018/19**. Mae hyn yn golygu, ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi'r prif ddangosyddion a ganlyn: Dangosydd Capió 9 (fersiwn y mesur interim), Dangosydd Llythrennedd, Dangosydd Rhifedd, Dangosydd Gwyddoniaeth, a Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, i gyd yn seiliedig ar sgôr pwyntiau (Gweler **ansawdd a methodoleg** isod am fwy o fanylion). Bydd hyn am gyfnod interim, gan ddechrau gyda data canlyniadau o flwyddyn academaidd 2022/23, wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu ecosystem wybodaeth ddiwygiedig ac, fel rhan o hynny, trefniadau adrodd ar ddata canlyniadau cymwysterau yn y dyfodol.

Mae'r dadansoddiad o'r canlyniadau a gyflwynwyd yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ganlyniadau TGAU blwyddyn 11 a 17 oed Safon Uwch ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU) a disgyblion a Addysgir heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yng Nghymru (ac eithrio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Sefydliadau Addysg Bellach ac ysgolion annibynnol) sy'n debyg i wybodaeth a ryddhawyd gan **Gymwysterau Cymru** a'r **Cyd-ganolfan Cymwysterau (JCQ)** (gweler **ansawdd a methodoleg**) isod ar y sylw).

Graddau a aseswyd gan ganolfannau

Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 a 2022/23 yn flwyddyn drosiannol, lle dychwelwyd cymwysterau perthnasol disgyblion Cymru i arholiad ysgrifenedig. Nid oedd hwn yn ddychweliad cyflawn i arholiadau cyn-bandemig. I ddigolledu am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, rhoddwyd dewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur i ddisgyblion a safodd arholiadau yn 2021/22, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu sefyll) a chanlyniadau 2020/21. Wrth i ni symud yn ôl i drefniadau asesu cyn y pandemig, arhosodd rhywfaint o gefnogaeth ar waith ar gyfer dysgwyr a safodd arholiadau yn 2022/23. Roedd y gefnogaeth hon ar ffurf gwybodaeth ymlaen llaw ac yn ddull cefnogol o raddio. Yn 2022/23 gosododd Cymwysterau Cymru y canlyniadau ar lefel genedlaethol yn fras hanner ffordd rhwng canlyniadau 2018/19 a 2021/22. **Yn 2023/24 mae Cymwysterau Cymru wedi dychwelyd i ddyfarnu canlyniadau yn unol â chanlyniadau cyn y pandemig**, gan arwain at ostyngiad bach yn y canlyniadau o 2022/23.

Dyfarnwyd graddau i ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt yn ystod **cyfnodau haf 2020 a 2021 yn seiliedig ar radd a bennwyd gan y ganolfan neu fodel gradd a aseswyd gan y ganolfan**. Pennwyd graddau gan ysgolion yn seiliedig ar eu hasesiad o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth (gan gynnwys asesiadau heblaw arholiad, ffug arholiadau, a gwaith dosbarth).

Oherwydd y trefniadau arholi amrywiol sydd ar waith ers 2018/19, rhaid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau rhwng blynyddoedd dilynol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Dosbarthiad Graddau TGAU

Mae'r gwerthoedd yn y graffiau a'r ffigurau yn y datganiad hwn yn dangos canran y cofrestriadau a ddyfarnwyd ar bob gradd unigol, wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion dethol disgyblion. Er enghraifft, yn Ffigur 7, mae'r bar glas golau cyntaf ar y chwith (gwerth 11.2%) yn cynrychioli nifer y graddau A * a ddyfarnwyd yn 2018/19 fel canran o'r holl gofrestriadau yn 2018/19.

Mae'r dosbarthiadau gradd hyn yn caniatáu i'r canlyniadau gael eu holi ar lefel fwy manwl a dangos canlyniadau ar yr ystodau gallu uchaf ac isaf. Darperir dosbarthiadau gradd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn y tablau atodol hefyd.

Canlyniadau allweddol 2023/24

TGAU, Disgyblion Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

- Yn 2023/24 y dangosydd **cyfartalog capio 9 (fersiwn mesurau interim)** oedd 351.1 pwynt, yn is na'r 354.4 pwynt yn 2018/19 a'r 358.1 points in 2022/23.
- Y dangosydd cyfartalog ar gyfer **Tystysgrif Her Sgiliau** oedd 31.8 pwynt (Ffigur 1).
- Sgoriodd disgyblion yn uchaf yn y dangosydd Llythrennedd. Y dangosydd cyfartalog ar gyfer Llythrennedd oedd 38.5 pwynt, y dangosydd cyfartalog ar gyfer Rhifedd yw 35.9 pwynt a'r dangosydd cyfartalog ar gyfer Gwyddoniaeth oedd 36.0 pwynt (Ffigur 2).

Canlyniadau yn ôl nodweddion dethol disgyblion

- Sgoriodd menywod yn uwch yn y dangosydd Capiro 9 (fersiwn mesur

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

interim). Fodd bynnag, o 2018/19 i 2023/24 cyfyngodd y bwlch dangosydd capio 9 rhwng gwrywod a menywod o 32.9 i 21.9 pwynt.

- Mae disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sgorio'n gyson uwch na disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosydd Capió 9 (fersiwn mesur interim). Yn 2023/24 culhaodd y bwlch i 80.8 pwynt o 87.1 pwynt yn 2022/23. Mae hyn yn debyg i'r bwlch o 77.3 yn 2018/19.
- Culhaodd y bwlch rhwng disgyblion Gwyn Prydeinig a disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y dangosydd Capió 9 (fersiwn dangosyddion interim), gyda disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cyflawni gwell canlyniadau na disgyblion Gwyn Prydain. Culhaodd y bwlch o 22.7 pwynt yn 2022/23 i 18.8 pwynt yn 2023/24 (Ffigur 5).
- Y cefndir ethnig a sgoriodd uchaf yn y dangosydd Capió 9 (fersiwn dangosyddion interim) oedd disgyblion Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig ar 464.9 pwynt.

Safon Uwch, Disgyblion 17 oed (Chweched dosbarth)

- Yn 2023/24 roedd canran y cofrestriadau Safon Uwch a ddyfarnwyd graddau A* i A, A* i C yn is na 2022/23. Roedd y gostyngiad mwyaf ar A* i A, gyda gostyngiad o 4.1 pwynt canran. Doedd dim newid yn A* i E yn 2023/24.

Canlyniadau yn ôl nodweddion dethol disgyblion

- Nid oedd bwlch rhwng menywod a gwrywod yn A* i A yn 2023/24, mae merched wedi cael canlyniadau uwch na dynion yn A* i A ers 2018/19 gyda bwlch o 3.4 pwynt canran yn 2022/23. Cyflawnodd menywod ganlyniadau gwell na dynion ar raddau A* i C o 5.8 pwynt canran. Roedd y bwlch yn A* i E hefyd yn ddibwys yn 2023/24 (Ffigur 10).
- O 2022/23 i 2023/24 culhaodd y bwlch ychydig rhwng disgyblion Gwyn Prydeinig a disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar raddau A* i A,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gyda disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cyflawni gwell canlyniadau na disgyblion Gwyn Prydain. Roedd y bwlch yn A* i E yn ddibwys (Ffigur 11).

- Disgyblion â chefnidir ethnig Tseiniaidd sgoriodd ar ei uchaf gyda dros hanner y cymwysterau a ddyfarnwyd yn A* i A (59.0%).

TGAU Disgyblion Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

Dangosydd Capió 9 (fersiwn y mesur interim)

Mae'r dangosydd Capió 9 wreiddiol, a gyflwynwyd yn 2016/17, yn canolbwyntio ar naw canlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion pwnc-benodol. Rhaid i'r sgôr Capió 9 (fersiwn dangosydd interim) (gweler [ansawdd a methodoleg](#) isod am fwy o fanylion) a gyflwynwyd yn 2018/19 gynnwys cymwysterau TGAU Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Gyntaf neu Lenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg neu Rifedd, a Gwyddoniaeth. Fel canllaw, mae gradd A* TGAU yn werth 58 o bwyntiau, mae gradd A yn werth 52 o bwyntiau, mae gradd C yn werth 40 o bwyntiau ac ati. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog Capió 9 (fersiwn y mesur interim) eleni ychydig yn is na'r hyn sy'n cyfateb i 9 gradd C (360 o bwyntiau). Gweler [Diffiniadau](#) i gael dadansoddiad llawn o'r pwyntiau yn ôl gradd.

Y dangosydd cyfartalog Capió 9 (fersiwn y mesur interim) o holl ddisgyblion yng Nghymru yn 2023/24 yw 351.1, gostyngiad bach o'i gymharu â 358.1 yn 2022/23. Nid yw hyn yn dangos ystod na dosbarthiad sgoriau ar gyfer disgyblion yn y garfan. Bydd gan ddisgyblion unigol ystod eang o sgorau, bydd rhai yn uwch a bydd rhai yn is. Bwriad y dangosydd hwn yw adlewyrchu canlyniadau i ysgolion yng Nghymru ac nid yw'n cael ei ddefnyddio i asesu perfformiad disgyblion

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

unigol.

Dangosydd tystysgrif her sgiliau (SCC)


Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau (Manyleb CBAC), sy'n rhan allweddol o Fagloriaeth Cymru, ar gael i ddysgwyr ar Lefel Sylfaen 1 neu Lefel Genedlaethol 2. Rhoddir graddau A i C ar gyfer Lefel Genedlaethol 2, ac fe'u trosir i'r un sgoriau pwyntiau â'r dangosydd pwnc, gyda 52 o bwyntiau ar gyfer A ac yn y blaen. Rhoddir dyfarniad Llwyddo* a Llwyddo ar gyfer Lefel Sylfaen 1, ac fe'u trosir yn sgoriau pwyntiau o 31 a 22. Mae hyn yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r dangosydd hwn â'r tri mesur perfformiad pwnc. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r dangosydd hwn â'r tri mesur perfformiad pwnc, sydd â dulliau asesu gwahanol. Mae'r SCC yn canolbwyntio mwy ar waith cwrs a gwblhawyd drwy gydol y flwyddyn academaidd yn hytrach nag arholiad terfynol ar ddiwedd y flwyddyn/tymor.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ffigur 1: Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Cyfartalog (SCC) gan ddisgyblion Blwyddyn 11, 2016/17 i 2023/24 [Nodyn 1]



Disgrifiad o Ffigur 1: Graff llinell yn dangos dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau o 2016/17 i 2023/24, ac eithrio 2019/20 i 2021/22 gweler [Nodyn 2]. O 2016/17 i 2018/19 cynyddodd y dangosydd. Yn dilyn pandemig coronafeirws COVID-19 mae'r dangosydd yn is flwyddyn wrth flwyddyn, ond mae'n dal yn uwch na'r sgôr yn 2016/17.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED), 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 1 y tablau atodol

[Nodyn 1]: Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer dangosyddion. O 2018/19, dim ond canlyniad y cofrestriad cyntaf (gronolegol) fydd yn cael ei gyfrif yn ein dangosyddion.

[Nodyn 2]: Nid oes data ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 a 2021/22, wrth i ddangosyddion gael eu hatal oherwydd Pandemig y COVID-19.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

[Nodyn 3]: Mae'r pwyntiau ar yr echelin-Y yn dechrau ar 25, nid ar 0.

Er bod pwyntiau yn uwch yn mynd o 2016/17 i 2018/19, 28.6 i 36.4, yn 2022/23 roedd yn is yn 31.6 gyda chynnydd bach i 31.8 yn 2023/24.

Dangosyddion perfformiad pwnc (sgoriau pwyntiau cyfartalog)


Mae'r prif dangosyddion yn dangos y sgôr gyfartalog ar gyfer pob disgybl sydd wedi'i gynnwys ledled Cymru. Ar gyfer y Dangosyddion Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth, y sgôr pwyntiau cyfartalog uchaf posibl yw 58 o bwyntiau, a hynny os yw pob disgybl yn cyflawni gradd A*. Y sgôr pwyntiau cyfartalog isaf yw 16 o bwyntiau, a hynny os yw pob disgybl yn cyflawni gradd G. Noder, mae'r ffigurau hyn yn dangos y sgoriau cyfartalog ar gyfer pob disgybl yng Nghymru. Bydd rhai disgyblion yn perfformio'n well na hyn a rhai yn perfformio'n waeth. Nid yw hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cyflawni gradd D yn y pwnc perthnasol. Mae'r ffigwr yn gyfartaledd o bob disgybl ar draws Cymru ac nid yw'n nodi ystod na dosbarthiad sgoriau o fewn y garfan.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ffigur 2: Dangosyddion pwnc ar gyfartaledd gan ddisgyblion Blwyddyn 11, 2016/17 i 2023/24



Disgrifiad o Ffigur 2: Graff llinell sy'n dangos y dangosyddion pwnc; Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth, o 2016/17 i 2023/24, ac eithrio 2019/20 i 2021/22 gweler [Nodyn 1]. Mae disgyblion yn sgorio'n gyson yn well yn y dangosydd Llythrennedd na'r ddau ddangosydd pwnc arall. Mae disgyblion o drwch blewyn yn sgorio'n well mewn Rhifedd dros Wyddoniaeth.

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 1 y tablau atodol

[Nodyn 1]: Nid oes data ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 a 2021/22, wrth i ddangosyddion gael eu hatal oherwydd Pandemig y COVID-19.

[Nodyn 2]: Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer y dangosyddion. O 2018/19, dim ond canlyniad y cofnod cyntaf (gronolegol) fydd yn cael ei gyfrif yn ein dangosyddion.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

[Nodyn 3]: Mae'r pwyntiau ar yr echelin-Y yn dechrau ar 30, nid ar 0.

Y mesurau Llythrennedd yw'r uchaf yn gyffredinol, ac yna mathemateg a gwyddoniaeth, ac eithrio 2016/17 a 2023/24 pan oedd y mesur gwyddoniaeth yn uwch na rhifedd. Mae'r holl fesurau rhwng 36.0 a 39.7 pwynt. Rhwng 2022/23 a 2023/24 gostyngodd y tri dangosydd oddeutu un pwynt. Y gwahaniaeth rhwng pob gradd yw 6 phwynt felly mae hyn yn cyfateb i un rhan o chwech o'r boblogaeth sy'n cyrraedd un radd yn is o'i gymharu â 2022/23.

Canlyniadau fesul nodweddion disgyblion

Mae'r siartiau canlynol yn dangos y bylchau yn y dangosyddion dros y blynyddoedd diweddar ôl nodweddion dethol disgyblion.

Rhyw

Bwlch rhwng y rhywiau yn y dangosydd Capiro 9 (fersiwn y mesur interim)

Yn 2023/24 sgoriodd menywod 362.4 a sgoriodd gwrywod 340.5 pwynt ar gyfartaledd yn y dangosydd Capiro 9 (fersiwn y dangosydd interim). Mae hyn yn golygu bod merched yn sgorio'n uwch na gwrywod o 21.9 pwynt. Gostyngodd hyn o fwllch o 32.9 pwynt yn 2018/19.


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Bwlch rhwng y rhywiau yn y dangosydd pwnc

Ffigur 3: Bwlch rhwng y rhywiau mewn dangosyddion pwnc (gwryw llai benyw), 2016/17 i 2023/24



Disgrifiad o Ffigur 3: Graff llinell sy'n dangos y bwlch yn y mesurau pwnc; Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth, rhwng menywod a gwrywod rhwng 2016/17 a 2023/24, ac eithrio 2019/20 i 2021/22 [Nodyn 1]. Ar gyfer pob un o'r tri dangosydd roedd menywod yn sgorio'n uwch na gwrywod, mae'r bylchau ehangaf ar gyfer Llythrennedd ac mae'r bylchau culaf ar gyfer Rhifedd. Rhwng 2018/19 a 2023/24 ym mhob dangosydd fe gulhaodd y bwlch.

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 2a y tablau atodol

[Nodyn 1]: Nid oes data ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 a 2021/22, wrth i ddangosyddion gael eu hatal oherwydd pandemig y COVID-19.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

[Nodyn 2]: Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer y dangosyddion. O 2018/19, dim ond canlyniad y cofnod cyntaf (gronolegol) fydd yn cael ei gyfrif yn ein dangosyddion.

Roedd y bwllch ehangaf mewn Llythrennedd yn 2023/24 gyda gwahaniaeth o 4.8 pwynt a'r culaf oedd Rhifedd lle sgoriodd gwrywod yn uwch na menywod o 0.1 pwynt. Yn wahanol i'r dangosydd Llythrennedd a Rhifedd, mae'r bwllch yn y dangosydd Gwyddoniaeth wedi ehangu ychydig o 1.4 pwynt yn 2022/23 i 1.6 pwynt yn 2023/24.

Prydau ysgol am ddim (PYD)

Mae disgyblion yn gymwys i gael **prydau ysgol am ddim** os yw eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn budd-daliadau prawf modd penodol neu daliadau cymorth

Bu newidiadau sylweddol yn ddiweddar yn y ddarpariaeth PYD yng Nghymru fel rhan o gyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. I gael rhagor o fanylion, gweler yr adran **gwybodaeth ansawdd a methodoleg**

Bwllch Capiu 9 yn ôl Prydau Ysgol am Ddim (fersiwn y mesur interim)

Yn 2023/24 sgoriodd disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD (eFSM) 296.7 a sgoriodd disgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYD (nFSM) 377.5 ar gyfartaledd yn y dangosydd capio 9 (fersiwn y mesurau interim). Mae hyn yn golygu fod disgyblion nad ydynt yn gymwys yn sgorio'n uwch na disgyblion sydd yn gymwys o 80.8 pwynt. Mae hyn yn ostyngiad yn y bwllch o 87.1 pwynt yn 2022/23.


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Bwlch PYD yn y dangosyddion pwnc

Ffigur 4: Bwlch PYD yn y dangosyddion pwnc (ddim yn gymwys i gael PYD llai cymwys i gael PYD), 2016/17 i 2023/24



Disgrifiad o Ffigur 4: Graff llinell sy'n dangos y bwlch yn y dangosyddion pwnc; Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth, rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael PYD a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYD rhwng 2016/17 a 2023/24, ac eithrio 2019/20 i 2021/22 [Nodyn1]. Ar gyfer yr holl ddangosyddion ar gyfartaledd fe sgoriodd disgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYD yn uwch na disgyblion sy'n gymwys i gael PYD. Mae'r bwlch yn ehangaf mewn Gwyddoniaeth ac yn gulaf mewn Llythrennedd. Rhwng 2018/19 a 2023/24 ehangodd y bwlch ym mhob un o'r tri dangosydd.

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 2b y tablau atodol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

[Nodyn 1]: Nid oes data ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 a 2021/22, wrth i ddangosyddion gael eu hatal oherwydd pandemig y COVID-19.

[Nodyn 2]: Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer y dangosyddion. O 2018/19, dim ond canlyniad y cofnod cyntaf (gronolegol) fydd yn cael ei gyfrif yn ein dangosyddion.

Yn 2023/24 roedd y bwlch lleiaf mewn Llythrennedd ar 9.6 pwynt tra bod yr ehangaf mewn Gwyddoniaeth ar 12.1 pwynt. Rhwng 2022/23 a 2023/24 culhaodd y bwlch ym mhob un o'r tri dangosydd ar gyfradd debyg.

Ethnigrwydd

Yng nghyd-destun y cyhoeddiad hwn mae'r categori "Gwyn" a ddefnyddir isod, yn cyfeirio at ddisgyblion Gwyn-Brydeinig yn unig. Mae'r holl ddisgyblion eraill sydd ag ethnigrwydd wedi'i recordio wedi'u cynnwys o dan y categori grŵp Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Felly mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys disgyblion Gwyn nad ydynt yn Brydeinig. Nid yw disgyblion nad ydynt wedi nodi eu hethnigrwydd wedi'u cynnwys. Mae'n debygol y bydd gwahaniaethau mewn cyflawniad rhwng grwpiau yn y categori Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae dadansoddiad pellach ar gael ar gyfer grwpiau ethnig manylach yn y [tablau atodol](#) ac yn Ffigur 5 isod.

Bwlch Capió 9 ethnigrwydd (fersiwn mesur interim)

Yn 2023/24 sgoriodd disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig 378.7 pwynt a sgoriodd disgyblion Gwyn Prydeinig 359.9 pwynt ar gyfartaledd yn y dangosydd Capió 9. Mae hyn yn golygu yn gyffredinol bod disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn sgorio'n uwch na disgyblion Gwyn Prydain o 18.8 pwynt. Mae hyn yn culhau'r bwlch o 22.7 pwynt yn 2022/23.


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Bwlch ethnigrwydd yn y dangosydd pwnc

Ffigur 5: Bwlch ethnigrwydd yn y dangosydd pwnc, 2016/17 i 2023/24 (disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig llai disgyblion Gwyn)



Disgrifiad o Ffigur 5: Graff llinell sy'n dangos y bwlch yn y dangosyddion pwnc; Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth rhwng disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a disgyblion Gwyn Prydain rhwng 2016/17 a 2023/24, ac eithrio 2019/20 i 2021/22 [Nodyn 1]. Ar gyfer pob dangosydd fe sgoriodd disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn uwch na disgyblion Gwyn Prydain. Ar y cyfan roedd y bwlch yn ehangaf ar gyfer y dangosydd Rhifedd ac yn gulaf ar gyfer y dangosydd Llythrennedd. Rhwng 2018/19 a 2023/24 cynyddodd y bylchau ar gyfer y tri phwnc ar gyfradd debyg.

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 2c y tablau atodol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).


[Nodyn 1]: Nid oes data ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 a 2021/22, wrth i ddangosyddion gael eu hatal oherwydd pandemig y COVID-19.

[Nodyn 2]: Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer y dangosyddion. O 2018/19, dim ond canlyniad y cofnod cyntaf (gronolegol) fydd yn cael ei gyfrif yn ein dangosyddion.

Yn 2023/24 y bwlch ehangaf oedd 3.4 pwynt ar gyfer Rhifedd a'r bwlch culaf oedd 1.3 pwynt ar gyfer Llythrennedd. Rhwng 2018/19 a 2022/23 roedd y bylchau ar gyfer y tri phwnc yn uwch flwyddyn wrth flwyddyn, fodd bynnag, gostyngodd y bwlch yn 2023/24.

Dosbarthiad gradd TGAU cyffredinol

Ffigur 6: Canran y cofrestriadau TGAU yn ôl ystod graddau ym mhob pwnc, 2015/16 i 2023/24 [Nodyn 1], [Nodyn 2]



Disgrifiad o Ffigur 6: Siart llinell yn dangos ystodau graddau TGAU A* i A, A* i C

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

ac A* i G a enillwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 11 rhwng 2015/16 a 2023/24. Yn ystod y blynyddoedd 2019/20 a 2020/21, TGAU yn yr ardal lwyd gysgodol, dyfarnwyd TGAU yn seiliedig ar Raddau a Aseswyd gan Ganolfan a Graddau a Benderfynir gan Ganolfan [Nodyn 3]. Yn 2021/22, 2022/23 a 2023/24 mae canran y TGAU a ddyfarnwyd graddau A* i A ac A* i C yn is na'r ganran a ddyfarnwyd yn ystod pandemig COVID-19, â dychwelyd i'r lefel cyn y pandemig.

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 4a y tablau atodol

[Nodyn 1]: Roedd cyfnodau arholiadau 2021/22 a 2022/23 yn flynyddoedd trosiannol. Yn 2021/22 gosododd Cymwysterau Cymru'r canlyniadau ar lefel genedlaethol hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau 2018/19 a 2020/21. Yn 2022/23 gosodwyd y lefel genedlaethol hanner ffordd rhwng 2018/19 a 2021/22. Yn 2023/24 mae Cymwysterau Cymru wedi dychwelyd i ddyfarnu canlyniadau yn unol â chanlyniadau cyn y pandemig, gan arwain at ostyngiad bach yn y canlyniadau o 2022/23.

[Nodyn 2]: Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer dangosyddion. O 2018/19, dim ond canlyniad y cofnod cyntaf (gronolegol) fydd yn cael ei gyfrif yn ein mesurau.

[Nodyn 3]: Oherwydd pandemig y COVID-19, cafodd arholiadau cyhoeddus eu hatal yn 2019/20 a 2020/21 a dyfarnwyd graddau i ddisgyblion yn seiliedig ar fodel **gradd a bennwyd gan ganolfan neu a aseswyd gan ganolfan**.

Ers 2015/16 mae rhwng 96.1% a 99.4% o ddisgyblion wedi derbyn graddau A* i G. Roedd canran y disgyblion sy'n derbyn graddau A* i C yn uwch yn ystod blynyddoedd y pandemig COVID-19 o 65.1% yn 2018/19 (cyn y pandemig) i 75.1% yn 2020/21 (pan ddyfarnwyd Graddau a Benderfynir gan Ganolfan). Yn 2023/24 gostyngodd y ffigur hwn i 63.8%, yn unol â lefelau cyn y pandemig. Roedd canran y disgyblion sy'n cael graddau A* i A yn uwch yn ystod y


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

pandemig, o 19.5 yn 2018/19 i 29.5% yn 2020/21. Yn 2023/24 roedd yn is ar 19.8, yn agos at y canran a ddyfarnwyd cyn pandemig COVID-19.

Ffigur 7: Canran y cofrestriadau TGAU yn ôl gradd unigol ym mhob pwnc, 2018/19 a 2023/24



Disgrifiad o Ffigur 7: Siart bar sy'n dangos y canran o gofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd ym mhob gradd rhwng 2018/19 a 2023/24. Yn ystod y blynyddoedd 2019/20 a 2020/21 dyfarnwyd TGAU yn seiliedig ar Raddau a Aseswyd gan Ganolfan a Graddau Penderfynol y Ganolfan [Nodyn 1]. Digwyddodd y newid mwyaf yn nosbarthiad y graddau yn 2019/20 a 2020/21 lle dyfarnwyd canran uwch o raddau uwch. Ar y cyfan, mae'r dosbarthiad graddau a ddyfarnwyd bellach wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng 2018/19 a 2022/23 ar y radd A*.

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 4a y tablau atodol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

[Nodyn 1]: Oherwydd pandemig y COVID-19, cafodd arholiadau cyhoeddus eu hatal yn 2019/20 a 2020/21 a dyfarnwyd graddau i ddisgyblion yn seiliedig ar fodel gradd a bennwyd gan ganolfan neu a aseswyd gan ganolfan.

[Nodyn 2]: Roedd cyfnodau arholiadau 2021/22 a 2022/23 yn flynyddoedd trosiannol. Yn 2021/22 gosododd Cymwysterau Cymru'r canlyniadau ar lefel genedlaethol hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau 2018/19 a 2020/21. Yn 2022/23 gosodwyd y lefel genedlaethol hanner ffordd rhwng 2018/19 a 2021/22. Yn 2023/24 mae Cymwysterau Cymru wedi dychwelyd i ddyfarnu canlyniadau yn unol â chanlyniadau cyn y pandemig, gan arwain at ostyngiad bach o ganlyniadau 2022/23.

[Nodyn 3]: Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer mesurau. O 2018/19, dim ond canlyniad y cofnod cyntaf (gronolegol) fydd yn cael ei gyfrif yn ein dangosyddion.

[Nodyn 4]: Mae U/X yn gofrestriadau sydd heb eu graddio.

Yn 2023/24 mae dosbarthiad y graddau wedi dychwelyd i lefel debyg a welwyd cyn y pandemig, roedd canran y cofrestriadau TGAU y dyfarnwyd graddau A* i A iddynt yn is o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a'r gwahaniaeth mwyaf yw A*. Yn gyfatebol, roedd canran y cofrestriadau TGAU y dyfarnwyd graddau D, E, F a G iddynt yn 2023/24 yn uwch. Roedd y newid yn y canran o'r ceisiadau a ddyfarnwyd B ac C yn ddibwys. Rhwng 2018/19 a 2023/24 roedd nifer y graddau A* a ddyfarnwyd yn uwch o 0.2 pwynt canran.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.


Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol mewn Ysgolion (Chweched dosbarth)

Dosbarthiad graddau Safon Uwch

Ffigur 8: Canran y dyfarniadau Safon Uwch gan ddisgyblion 17 oed yn ôl ystod graddau ym mhob pwnc, 2015/16 i 2023/24



Disgrifiad o Ffigur 8: Graff llinell sy'n dangos y canran o ddyfarniadau Safon Uwch sy'n cyrraedd ffiniau graddau A* i A, A* i C ac A* i E. Yn ystod y blynyddoedd 2019/20 a 2020/21, yn yr ardal lwyd gysgodol, dyfarnwyd Safon Uwch yn seiliedig ar Raddau a Aseswyd gan Ganolfan a Graddau a Benderfynir gan Ganolfan [Nodyn 1]. Yn 2022/23 a 2023/24 mae canran y graddau Safon Uwch a ddyfarnwyd A* i A ac A* i C yn is na'r ganran a ddyfarnwyd yn ystod pandemig COVID-19 ond dal yn uwch na'r ganran a ddyfarnwyd yn 2018/19 (cyn y pandemig).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 7 y tablau atodol

[Nodyn 1]: Oherwydd Pandemig y COVID-19, cafodd arholiadau cyhoeddus eu hatal yn 2019/20 a 2020/21 a dyfarnwyd graddau i ddisgyblion yn seiliedig ar fodel gradd a bennwyd gan ganolfan neu a aseswyd gan ganolfan.

[Nodyn 2]: Roedd cyfnodau arholiadau 2021/22 a 2022/23 yn flynyddoedd trosiannol. Yn 2021/22 gosododd Cymwysterau Cymru'r canlyniadau ar lefel genedlaethol hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau 2018/19 a 2020/21. Yn 2022/23 gosodwyd y lefel genedlaethol hanner ffordd rhwng 2018/19 a 2021/22. Yn 2023/24 mae Cymwysterau Cymru wedi dychwelyd i ddyfarnu canlyniadau yn unol â chanlyniadau cyn y pandemig, gan arwain at ostyngiad bach o ganlyniadau 2022/23.


Ers 2015/16 mae rhwng 99% a 100% o ddisgyblion wedi derbyn graddau A* i E. Roedd canran y disgyblion sy'n derbyn graddau A* i C yn uwch yn ystod blynyddoedd y Pandemig COVID-19 o 76.7% yn 2018/19 (cyn y pandemig) i 92.2% yn 2019/20 (pan ddyfarnwyd Graddau Asesu Canolfannau (pan ddyfarnwyd Graddau Asesu Canolfannau). Yn 2023/24 gostyngodd y ffigwr hwn i 78.0%. Roedd canran y disgyblion sy'n cael graddau A* i A yn uwch o 25.5% yn 2018/19 i 49.0% yn 2020/21. Ar gyfer 2023/24 mae canran y cofrestriadau Safon Uwch A* i A ac A* i C yn dal i fod yn uwch na'r canlyniadau cyn y pandemig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ffigur 9: Canran y cofrestriadau Safon Uwch gan ddisgyblion 17 oed a ddyfarnwyd gradd ym mhob pwnc, 2018/19 i 2023/24



Disgrifiad o Ffigur 9: Siart bar sy'n dangos y canran o gofrestriadau Safon Uwch a ddyfarnwyd ar bob gradd. Yn ystod y blynyddoedd 2019/20 a 2020/21 dyfarnwyd Safon Uwch yn seiliedig ar Raddau a Aseswyd gan Ganolfan a Graddau Penderfynol y Ganolfan [Nodyn 1]. Digwyddodd y newid mwyaf yn nosbarthiad y graddau yn 2019/20 a 2020/21. Yn 2023/24 roedd canran y cofrestriadau Safon Uwch y dyfarnwyd graddau A* a A iddynt yn is o gymharu â blynyddoedd blaenorol, gyda'r gostyngiad mwyaf yn A* (i 9.8 pwynt canran). Yn gyfatebol, roedd canran uwch o ymgeiswyr Safon Uwch y dyfarnwyd graddau B, C, D ac E iddynt yn 2023/24.

Ffynhonnell: WED, 2023/24

Ceir y data yn Nhabl 7 y tablau atodol

[Nodyn 1]: Oherwydd Pandemig y COVID-19, cafodd arholiadau cyhoeddus eu

